

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 5: Adran 73

Adolygiadau sy'n ymwneud â chodi ffioedd

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adran 73 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

ffi a wneir gan awdurdod lleol. Mae hyn yn digwydd pan fydd cyfraniad neu ad-daliad wedi'i osod, neu'n mynd i gael ei osod, o dan adrannau 50, 52 a 53(3) o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol. Mae hefyd yn ymwneud â gosod ffi o dan adrannau 59, 66 a 72 o'r Ddeddf mewn perthynas â darparu, neu drefnu gofal a chymorth.

Dolenni allweddol:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1842/pdfs/wsi_20151842_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016

Cod Ymarfer ar Rannau 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part4-5cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan rannau 4 a 5 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adran 73** yn ei gwneud yn ofynnol i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer adolygu penderfyniadau a dyfarniadau gosod

Beth mae'n ei wneud?

Pan fydd person yn destun penderfyniad ynglŷn â'i allu i dalu ffi am y gofal a'r cymorth y mae'n eu derbyn, neu os codir ffi am hyn, mae'n gallu gofyn am adolygiad o'r penderfyniad a'r ffi os yw'n teimlo bod y broses wedi'i chynnal yn amhriodol neu os yw talu'r ffi yn arwain at galedi ariannol. Mae hyn yn berthnasol hefyd wrth benderfynu ar allu person i wneud cyfraniad neu i ad-dalu'r taliadau uniongyrchol y mae'n eu derbyn i sicrhau ei ofal a'i gymorth, neu os gosodir cyfraniad neu ad-daliad arno am hyn. Mae'r trefniadau adolygu hyn yn berthnasol i ddyfarniadau a phenderfyniadau gosod ffi yn ymwneud â gofal a chymorth amhreswyl a phreswyl.

Mae'r rheoliadau yn pennu pwy sy'n gallu gwneud cais am adolygiad, o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud cais am adolygiad a'r broses sydd angen ei dilyn wrth gynnwys adolygiad.

Cydweddu â'r Ddeddf

Mae'r newidiadau rheoleiddio yn cadw'r un drefn o adolygu dyfarniadau a chodi ffioedd mewn perthynas â gofal a chymorth amhreswyl. Mae'r rheoliadau yn ymestyn y darpariaethau hyn i gynnwys gofal a chymorth preswyl hefyd. Mae hyn yn sefydlu dull cyson, strwythuredig o wneud cais am adolygiad ar gyfer y ddau fath o ofal a chymorth, sy'n berthnasol i daliadau uniongyrchol a darparu neu drefnu gofal a chymorth gan awdurdod lleol.

Mae hyn yn cyd-fynd ag ethos y Ddeddf o gefnogi annibyniaeth pobl drwy roi llais cryfach a mwy o ddewis iddynt wrth ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Mae'r darpariaethau newydd yn cadw'r un egwyddorion a gofynion allweddol ag sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer adolygiadau yn ymwneud â gofal amhreswyl, gan eu hystyngiadau i gynnwys gofal preswyl hefyd. O ganlyniad, mae pawb sy'n destun dyfarniad ynglŷn â'u gallu i dalu, neu bawb sy'n gorfod talu ffi am eu gofal a'u cymorth, yn gallu cwestiynu'r penderfyniad os ydynt yn credu bod y broses wedi'i chynnal yn amhriodol neu os yw ffi o'r fath yn peri caledi ariannol iddynt. Mae hyn yn berthnasol hefyd wrth benderfynu ar allu person i wneud cyfraniad neu i ad-dalu'r taliadau uniongyrchol y mae'n eu derbyn i sicrhau ei ofal a'i gymorth.

Rhagor o wybodaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5664>

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?skip=1&lang=cy>

Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>